# Cynigion a Gwelliannau i'w Trafod ar 6 Hydref 2004

## Cynigion a gyflwynwyd ar 29 Medi 2004

**Y Ddadl Fer**

**NDM2112 Dai Lloyd (Gorllewin De Cymru);** Llawdriniaeth Nerfol Bediatrig yn Abertawe

**NDM2113 Karen Sinclair (De Clwyd)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru

1. Ar ôl ystyried Adroddiad Comisiwn Richard, yn galw ar Brif Weinidog Cymru i annog Ysgrifennydd Gwladol Cymru i gyflwyno cynigion i ddiwygio Deddf Llywodraeth Cymru at y dibenion canlynol:

a) sicrhau gwahaniad ffurfiol rhwng cangen weithredol a changen ddeddfwriaethol y Cynulliad;

b) diwygio'r trefniadau etholiadol presennol er mwyn cael gwared ar unrhyw anghysondebau;

c) gwella pwerau deddfwriaethol y Cynulliad.

*Gellir cael gafael ar gopïau o Adroddiad Comisiwn Richard a Deddf Llywodraeth Cymru 1998 trwy'r cysylltiadau isod:*
*http://www.legislation.hmso.gov.uk/acts/acts1998/19980038.htm*
*http://www.comisiwnrichard.gov.uk/content/finalreport/report-w.pdf*

## Gwelliannau a Gyflwynwyd ar 30 Medi 2004

Cynnig bod y Cynulliad yn penderfynu mabwysiadu'r gwelliannau canlynol i gynigion:

**NDM2113**

**1. Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru)**

Dileu popeth ar ôl Cymru a rhoi yn ei le

'Yn cyfarwyddo Prif Weinidog Cymru i alw ar Ysgrifennydd Gwladol Cymru i gyflwyno cynigion ar gyfer disodli Deddf Llywodraeth Cymru gan Ddeddf arall a fydd yn rhoi holl argymhellion Comisiwn Richard ar waith o fewn yr amserlen a amlinellir yn adroddiad y Comisiwn.'

**2. Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig

'Yn credu pan gynhelir refferendwm ar roi argymhellion Comisiwn Richard ar waith, dylai refferendwm o'r fath gael ei drefnu gan y Cynulliad gan ddefnyddio darpariaethau a.36 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998.'

**3. Jonathan Morgan (Canol De Cymru)**

Dileu pwynt (b)

**4. Jonathan Morgan (Canol De Cymru)**

Dileu pwynt (c)

**5. Jonathan Morgan (Canol De Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

'Yn derbyn yr angen i dderbyn caniatâd pobl Cymru drwy refferendwm, drwy Ddeddf Llywodraeth Cymru neu gan Lywodraeth y DU, os cynigir newid sylweddol i'r setliad cyfansoddiadol.'

**6. Kirsty Williams (Brycheiniog a Sir Faesyfed)**

Dileu popeth ar ôl 'Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru' ac ychwanegu:

'Yn cymeradwyo argymhellion Comisiwn Richard ac yn galw ar Lywodraeth y DU i'w rhoi ar waith cyn gynted â phosibl.'

**7. Kirsty Williams (Brycheiniog a Sir Faesyfed)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

'Yn credu y bydd y Cynulliad Cenedlaethol yn bodloni dyheadau pobl Cymru pan fydd eglurder ynghylch pwerau a chyfrifoldebau. Yn nodi y byddai rhoi argymhellion Comisiwn Richard ar waith yn cyflawni'r amcan hwnnw. Yn credu y byddai'r man canol a gynigir gan Brif Weinidog Cymru yn gadael pwerau a chyfrifoldebau'r Cynulliad yn aneglur ac yn agored i newid pellach.'

**8. Kirsty Williams (Brycheiniog a Sir Faesyfed)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

'Yn nodi y byddai rhoi argymhellion Comisiwn Richard ar waith yn galluogi'r Cynulliad i ymestyn cylch gwaith Comisiynydd Plant Cymru i'r holl faterion sy'n berthnasol i Gymru'.

**9. Kirsty Williams (Brycheiniog a Sir Faesyfed)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

'Yn nodi y byddai rhoi argymhellion Comisiwn Richard ar waith yn galluogi'r Cynulliad i wahardd ysmygu mewn mannau cyhoeddus.'